# CYNGOR GWYNEDD

## ADRAN 48 DEDDF SAFONAU A THREFNIADAETH YSGOLION (CYMRU) 2013

## RHYBUDD O GYNNIG I WNEUD NEWIDIADAU A REOLEIDDIR I YSGOL TREFERTHYR

### CYNGOR GWYNEDD, SWYDDFA'R CYNGOR, CAERNARFON, GWYNEDD, LL55 1SH

Hysbysir drwy hyn yn unol ag adran 42 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion fod Cyngor Gwynedd, ar ôl ymgynghori â'r cyfryw bersonau ag sy'n ofynnol, yn cynnig cynyddu capasiti Ysgol Treferthyr, Cricieth, Gwynedd LL52 0DS i 150 ac adleoli'r ysgol i safle newydd ar ochr orllewinol tref Cricieth, cyfeirir ato fel safle A497 (côd post LL52 0RY). Cynhelir yr ysgol gan Gyngor Gwynedd.

Cynhaliodd Cyngor Gwynedd gyfnod ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig hwn. Mae adroddiad ar yr ymgynghoriad sy'n cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan ymgynghorai, ymatebion y cynigwyr a barn Estyn ar gael ar www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg.

Cynigir gweithredu'r cynnig ar **1 Medi 2023.**

Nifer y disgyblion yn yr ysgol yw 99 Derbyn – blwyddyn 6, ac 18 Meithrin yn unol â ffigyrau Medi 2020, capasiti disgyblion yr ysgol yw 119, a'r capasiti arfaethedig ar ôl gweithredu'r cynnig fydd 150 Derbyn - blwyddyn 6 a 21 Meithrin. Nifer y disgyblion y derbynnir ar 1 Medi 2023 fydd 21 disgybl Derbyn a 21 disgybl Meithrin.

Ni ragwelir bydd adleoli'r ysgol yn golygu unrhyw newid i'r angen am gludiant i'r ysgol. ac y bydd cludiant yn cael ei ddarparu i ddisgyblion yr ysgol yn unol â Pholisi Cludiant Ysgolion Cyngor Gwynedd.

Lluniwyd y cynnig o ganlyniad i gyflwr gwael yr ysgol bresennol a'r angen i adeiladu ysgol newydd yn ei le.

Gall unrhyw un wrthwynebu'r cynigion cyn pen cyfnod o 28 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi'r cynigion hyn, hynny yw erbyn **24 Mawrth 2021.**

Dylid anfon gwrthwynebiadau ysgrifenedig at sylw'r Pennaeth Addysg, Cyngor Gwynedd, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SH neu drwy anfon neges e-bost at sylw'r Pennaeth Addysg i moderneiddioaddysg@gwynedd.llyw.cymru.

Llofnodwyd:

Garem Jackson
Y Pennaeth Addysg, ar ran Cyngor Gwynedd

Dyddiad Cyhoeddi: **24 Chwefror 2021**

**NODYN ESBONIADOL**

(Nid yw'r isod yn rhan o'r rhybudd ond mae'n cynnig esboniad o'i bwrpas)
Yn dilyn proses ymgynghori, mae Cyngor Gwynedd yn cynnig cynyddu capasiti Ysgol Treferthyr i 150 ac adleoli'r ysgol i safle amgen, cyfeirir ato fel safle A497, ar 1 Medi 2023.